CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1389 (Cy.139)

# GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) 1988 ("y prif Reoliadau") sy'n darparu ar gyfer peidio â chodi taliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ("GIG") ac ar gyfer talu treuliau teithio mewn achosion penodol.

Mae gan rai personau hawl awtomatig i beidio â thalu taliadau'r GIG ac i gael taliadau am dreuliau teithio am eu bod yn cael budd-daliadau penodedig y wladwriaeth.

Nid oes gan lawer o bersonau hawl awtomatig i beidio â thalu taliadau'r GIG ac i gael taliadau am dreuliau teithio. Mae'r prif Reoliadau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfrifo incwm, cyfalaf a gofynion hawlydd (a rhai ei deulu, pan fônt yn berthnasol). Gwneir y cyfrifiad hwn drwy gymhwyso darpariaethau wedi'u haddasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 a nodir yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau.

Mae rheoliadau 2 a 3 yn diwygio Atodlen 1 i'r prif Reoliadau i gynyddu'r terfynau cyfalaf a ddefnyddir i gyfrifo'r hawl i beidio â thalu ac ad-dalu treuliau teithio.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1389 (W.139)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations further amend the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) Regulations 1988 ("the principal Regulations") which provide for the remission of National Health Service ("NHS") charges and for the payment of travelling expenses in certain cases.

Some persons are automatically entitled to the remission of NHS charges and to the payment of travelling expenses because they are in receipt of specified state benefits.

Many persons are not automatically entitled to the remission of NHS charges and payment of travelling expenses; accordingly, the principal Regulations contain provision for a calculation of a claimant's income, capital and requirements (and of those of his or her family, where relevant). This calculation is made applying the modified provisions of the Income Support (General) Regulations 1987 that are set out in Schedule 1 to the principal Regulations.

Regulations 2 and 3 amend Schedule 1 to the principal Regulations to uprate the capital limits used in the calculation of entitlement to remission of charges and repayment of travelling expenses.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1389 (Cy.139)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *23 Mai 2006* |
| *Yn dod i rym* | *24 Mai 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 83A, 126(4) a 128(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006, a deuant i rym ar 24 Mai 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a

(**1**) 1977 p.49 ("Deddf 1977"); mewnosodwyd adran 83A gan adran 14(1) o Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1988 (p.7) ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6 o Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49), gan baragraff 18(5) o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p.19) ("Deddf 1990") a chan baragraff 40 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17).

Diwygiwyd adran 126(4) gan adran 65(2) o Ddeddf 1990 a chan Atodlen 4, paragraff 37(6) i Ddeddf Iechyd 1999 (p.8).

Adran 128(1), fel y'i diwygiwyd gan adran 26(2)(g) ac (i) o Ddeddf 1990, am y diffiniad o "prescribed" a "regulations".

Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 83A, 126(4) a 128(1) o Ddeddf 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S.1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 1999, adran 66(5).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1389 (W.139)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *23 May 2006* |
| *Coming into force* | *24 May 2006* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 83A, 126(4) and 128(1) of the National Health Service Act 1977(**1**) hereby makes the following Regulations:

**Title, commencement, application and interpretation**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Amendment) (Wales) Regulations 2006 and they come into force on 24 May 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations, "the principal Regulations" ("*y prif Reoliadau*") means the National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges)

(**1**) 1977 c.49 ("the 1977 Act"); section 83A was inserted by section 14(1) of the Social Security Act 1988 (c.7) and amended by paragraph 6 of Schedule 2 to the Health and Medicines Act 1988 (c.49), by paragraph 18(5) of Schedule 9 to the National Health Service and Community Care Act 1990 (c.19) ("the 1990 Act") and by paragraph 40 of Schedule 1 to the Health Authorities Act 1995 (c.17).

Section 126(4) was amended by section 65(2) of the 1990 Act and by Schedule 4, paragraph 37(6) to the Health Act 1999 (c.8).

Section 128(1), as amended by section 26(2)(g) and (i) of the 1990 Act, for the definitions of "prescribed" and "regulations".

The functions of the Secretary of State under section 83A, 126(4) and 128(1) of the 1977 Act were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, S.I.1999/672, article 2 and Schedule 1, as amended by the 1999 Act, section 66(5).

Pheidio â Chodi Tâl) 1988(**1**).

**Diwygio Rhan I o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau**

**2**.-(1) Mae tabl A o Ran I o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (addasiadau o ddarpariaethau Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**2**) at ddibenion Rhan I o'r Atodlen hon) wedi'i ddiwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn y cofnod sy'n ymwneud â rheoliad 45-

(a) ym mharagraff (a), yn lle "£8000" rhodder "£16,000";

(b) ym mharagraff (b), yn lle "£21,000" rhodder "£21,500";

(c) ym mharagraff (c), yn lle "£14,750" rhodder "£16,000".

(3) Yn y cofnod sy'n ymwneud â rheoliad 53 yn lle "£14,750" rhodder £16,000" ac yn lle "£21,000" rhodder "£21,500".

**Diwygio Rhan II o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau**

**3**.-(1) Mae Tabl B o Ran II o Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (addasiadau o ddarpariaethau o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 at ddibenion Rhan II o'r Atodlen hon) wedi'i ddiwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 1 (2) o Atodlen 4A a fewnosodwyd, yn lle "£3000" rhodder "£6000".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

23 Mai 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Regulations 1988(**1**).

**Amendment to Part I of Schedule 1 to the principal Regulations**

**2**.-(1) Table A of Part I of Schedule 1 to the principal Regulations (modifications of provisions of the Income Support (General) Regulations 1987(**2**) for the purposes of Part I of this Schedule) is amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) In the entry relating to regulation 45-

(a) in paragraph (a), for "£8,000" substitute "£16,000";

(b) in paragraph (b), for "£21,000" substitute "£21,500";

(c) in paragraph (c), for "£14,750" substitute "£16,000".

(3) In the entry relating to regulation 53 for "£14,750" substitute £16,000" and for "£21,000" substitute "£21,500".

**Amendment of Part II of Schedule 1 to the principal Regulations**

**3**.-(1) Table B of Part II of Schedule 1 to the principal Regulations (modifications of provisions of the Income Support (General) Regulations 1987 for the purposes of Part II of this Schedule) is amended in accordance with the following provisions of this regulation.

(2) In paragraph 1 (2) of the inserted Schedule 4A for "£3000" substitute "£6000".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**3**)

23 May 2006

*D. Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) O.S.1988/551 fel y'i diwygiwyd gan O.S.1989/394, 517 a 614, 1990/548, 918 a 661, 1991/557, 1992/1104, 1993/608, 1995/642 a 2352, 1996/410, 1346 a 2362, 1997/748 a 2393, 1998/417, 1999/767 a 2840 (Cy.20), 2001/1397 (Cy.92) a 3322 (Cy.275), 2003/975 (Cy.134) a 2003/2561 (Cy.250), 2004/871 (Cy.86) a 2004/1042 (Cy.124) a 2005/1723 (Cy.135) a 2005/3302 (Cy.256).

(**2**) O.S.1987/1967

(**3**) 1998 p.38

(**1**) S.I.1988/551 as amended by S.I.1989/394, 517 and 614, 1990/548, 918 and 661, 1991/557, 1992/1104, 1993/608, 1995/642 and 2352, 1996/410, 1346 and 2362, 1997/748 and 2393, 1998/417, 1999/767 and 2840 (W.20), 2001/1397 (W.92) and 3322 (W.275), 2003/975 (W.134) and 2003/2561 (W.250), 2004/871 (W.86) and 2004/1042 (W.124) and 2005/1723 (W.135) and 2005/3302 (W.256).

(**2**) S.I.1987/1967

(**3**) 1998 c.38

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1389 (Cy.139)

## GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1389 (W.139)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The National Health Service (Travelling Expenses and Remission of Charges) (Amendment) (Wales) Regulations 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W328/06/06 ON